

P-05-1137 Galwad ar i Lywodraeth Cymru roi cyllid teg i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Gohebiaeth – Deisebydd i'r Pwyllgor, 03.02.21

Llongyfarchiadau Llywodraeth Cymru am wrando ac am ail-ystyried!

Yn unol â dyheadau cefnogwyr y ddeiseb, rhaid serch hynny, barhau i godi cwestiynau i sicrhau setliad ariannu **cynaliadwy hir dymor** i'r Llyfrgell Genedlaethol, a fydd yn diogelu gwasanaethau, swyddi y gweithlu presennol yn ogystal a chaniatáu i'r Llyfrgell ehangu ei gwaith hanfodol ar gyfer y dyfodol yn ol gofynion yr adolygiad teilwredig.

Angen Cynllun Cynladwriaeth Hirdymor y LGC:

Cynllun a strwythur ar gyfer fformiwla ariannu teg hir dymor.

- Rhaid i bob cymorth grant yn y dyfodol ystyried chwyddiant, ble nad ydy hyn yn digwydd rhaid cyfeirio at dorriadau.
- Ni all LC barhau i ddarparu'r un fformiwla ariannu i bob sefydliad diwylliannol. Ymddengys hyn yn bolisi diog a diffygiol. **Rhaid wrth fformiwla ariannu sy'n ystyried gofynion arbennig y LGC**, sef sefydliad sydd a staff cyflogedig ac un s'yn rheoli adeilad.
- Buddsoddiad hir-dymor mewn isadeiladedd. Yn ei swyddogaeth fel prif archifdy Cymru, er engraifft, mae'r LGC angen estyniad i gartrefu archifau cynyddol. I rhoi cyd-destun deallir o'r *Astudiaeth Dichonoldeb ar sefydlu Archifdy Cenedlaethol Cymru(2019)* y buasai angen £15-20 miliwn o Fuddsoddiad Cyfalaf ar gyfer sefydliad o'r fath: £9 miliwn (£1.8 miliwn yn flynyddol) ar gyfer Sistem Gadw Digidol (Digital Preservation System); a £2.1 - £7.5 fel Costau Gweithredu Refeniw.
- Ad-dalu: **Gwneud yn iawn** am oddeutu £12 miliwn, rhoddion gan bobl gyffredin i hyrwyddo dysg, ymchwil, phryniant at gasgliadau, ond fu rhaid ei gwario yn hytrach i gwrdd a chostau rhedeg y llyfrgell.

Ffyniant i bawb, adeiladu cymunedau, cryfhau cymunedau a mynediad rhad i ddiwylliant a iaith i bawb

- **Digideiddio: Parhau gyda grant ariannol flynyddol a ddaeth i ben yn 2017.** Mae hyn yn cydfynd a nod y llywodraeth o gydraddoldeb mynediad rhad at addysg a gwybodaeth, sy'n arwain at gymunedau grymus.
- **Ariannu teg er mwyn gosod seiliau democratiaeth gref:** Mae mynediad at wybodaeth gywir yn ddirwystr yn conglaen seiliau cadarn ddemocratiaeth ac yn disgyn dan swyddogaeth naturiol llyfrgell hawlfraint fel LGC.
- Os ydy LC yn galw ar i LGC fod yn **ganolfan addysgiadol fywiog, yna dylid hyrwyddo Hanes Cymru yng ngwricwlwm newydd (2023) ysgolion yng Nghymru**, fel yr hybir lles, drwy feithrin balchder mewn treftadaeth, hanes a diwylliant.

Mae LIGC, sy'n gartref i drysorau llenyddol a diwyllianol sy'n eiddo'r genedl.

- Hyrwyddo a gweithredu **economi ddiwylliant**. Profa modelau rhyngwladol bod buddsoddiad mewn sefydliadau diwylliannol yn dod a budd i gymuned leol yn ogystal a chenedlaethol.
- Hybu rôl lysgenhadol LGC i gyfathrebu â threftadaeth Cymru fyd eang drwy gynnig cynrychiolaeth yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru dramor.

.

Mae LIGC, sy'n gartref i drysorau llenyddol a diwylliannol yn eiddo'r genedl.

Pwyntiau Gweithredu:

- Dylid ailedrych ar aelodau'r Bwrdd Rheoli. Dylai mwyafrif yr aelodau fod yn arbenigwyr llyfrgellyddol neu gadwriaethol. Buasai'r rhain yn gallu arwain yn fwy effeithiol ar faterion o ariannu a staffio. Gallent hefyd ddod i gasgliadau proffesiynol, gan gydbwysu ariannu cyhoeddus a masnachol.
- Dylai sefydliad o bwys cenedlaethol fel LIGC ddod yn uniongyrchol o dan arolygaeth y Prif Weinidog.
- Dylid ailagor yr Adolygiad a dylai unrhyw drafodaethau pellach ynghylch dyfodol LIGC gynnwys cynrychiolaeth ehangach o'r cyhoedd. Aelodau heb eu hethol, ac felly heb fod yn atebol i'r cyhoedd ac o gyrff cyhoeddus eraill oedd ar Banel Her Bwrdd Llywodraeth Cymru. Nid oedd yr un ohonyntyn meddu ar **gefndir aphrofiad mewnrheoli treftadol neu gadwriaethol**. Gofynnwn am ymgynghoriad gyda chynrychiolaeth o blith defnyddwyr, academyddion, ymchwilyr a chefnogwyr LIGC.
- Dylai LIGC gael yr hawl i ateb a dylai LIC dystio ei bod yn gwrando, clywed ac ymateb.